
CANLLAWIAU AR Y DDARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

Canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru
o dan adran 21(1A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003
[Diwygiwyd 2018]

DIFFINIADAU

1. Yn y canllawiau hyn:

Ystyr **Deddf 2003** yw Deddf Llywodraeth Leol 2003.

Ystyr **Ddeddf 2007** yw Deddf Llywodraeth Leol ac Ymwneud y Cyhoedd ag Iechyd 2007.

Ystyr **Rheoliadau 2003** yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu (Cymru) 2003 [OS 2003/3239, fel y'u diwygiwyd].

Ystyr **CFR** yw'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf, fel y'i diffinnir yn y Cod Materion Ariannol.

Mae i **Drefniant Credyd** yr ystyr a roddir yn adran 7 o Ddeddf 2003.

Ystyr **Asedau tai** yw unrhyw dir, tai neu eiddo eraill y mae isadran (1) o adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (dyletswydd i gadw'r Cyfrif Refeniw Tai) yn gymwys iddynt. (Diwygiwyd adran 74 gan adran 222 o Ddeddf Tai 1996 a pharagraff 24(2) o Atodlen 18 iddi).

Ystyr **les** yw trafodiad les fel y'i diffinnir o dan arferion cyfrifyddu priodol.

Mae i **awdurdod lleol** yr ystyr a roddir yn adran 23 o Ddeddf 2003. (Nid yw'r canllawiau hyn yn gymwys i gynghorau cymuned ac ymddiriedolwyr siarter).

Ystyr **MRP** yw Darpariaeth Isafswm Refeniw

Mae i **CFR heb fod yn dai** yr ystyr a roddir yn rheoliad 22 o Reoliadau 2003 cyn i hyn gael ei ddiwygio gan reoliadau 2008.

Ystyr **Cod Materion Ariannol** yw'r cod ymarfer y cyfeirir ato yn rheoliad 2 o Reoliadau 2003.

Ystyr **Gwariant Cyfalaf â Chymorth** yw cyfanswm gwariant cyfalaf yr hysbysir awdurdod lleol bod angen ei gymryd i ystyriaeth wrth gyfrifo'r grant refeniw sy'n ddyledus i'r awdurdod mewn perthynas â'i ddefnydd o fenthyca a chredyd. Mae'n cynnwys unrhyw wariant a gefnogir gan grant cyfalaf.

CYMHWYSO

Dyddiad dod i rym

2. Mae'r Canllawiau hyn yn gymwys am y cyfnodau sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2019 neu wedi hynny. Mae'n disodli pob fersiwn flaenorol o'r Canllawiau hyn.

Trefniadau trosiannol

3. Nid oes gofyniad i awdurdodau lleol ail-gyfrifo MRP a godir am 2018-19 neu unrhyw flwyddyn flaenorol ar ôl cyhoeddi'r canllawiau hyn sydd wedi eu diweddarau. Lle mae awdurdod lleol, cyn 31 Mawrth 2019, wedi newid y fethodoleg y mae'n ei defnyddio i gyfrifo darpariaeth ddarbodus ac felly wedi cyfrifo gorddarpariaeth, caiff barhau i ymgorffori'r orddarpariaeth honno yn y cyfrifiadau o ddarpariaeth ddarbodus yn y dyfodol.
4. Fel y nodir ym mharagraff 19 o'r canllawiau statudol, os yw awdurdod lleol newid y fethodoleg y mae'n ei defnyddio i gyfrifo MRP, ni all y newid hwn achosi gordaliad o gwbl."

Awdurdodau Lleol

5. Mae'r canllawiau hyn yn gymwys i holl awdurdodau lleol yng Nghymru a'u cyrff perthnasol. Nid ydynt yn gymwys i gynghorau tref a chymuned nag i ymddiriedolwyr siarter.

RHAGARWEINIAD

6. O dan reoliad 21 o Reoliadau 2003, mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol godi MRP ar eu cyfrif refeniw am bob blwyddyn ariannol i gyfrif am gost eu dyled yn y flwyddyn ariannol honno. Cyn iddo gael ei ddiwygio gan Reoliadau 2008, roedd rheoliad 22 yn nodi manylion y dull yr oedd yn ofynnol i'r awdurdodau ei ddilyn wrth gyfrifo MRP. Mae hyn wedi'i ddisodli gan ofyniad bod yr awdurdodau lleol yn cyfrifo swm o MRP sy'n ddarbodus yn eu barn hwy.
7. Wrth gyfrifo darpariaeth ddarbodus, rhaid i'r awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau hyn. Pan fo'r awdurdodau'n peidio â dilyn y canllawiau hyn ac yn mabwysiadu dull arall o gyfrifo darpariaeth ddarbodus, rhaid i'r awdurdodau esbonio'r rhesymau dros beidio â chydymffurfio ynghyd â sut y mae hyn yn cyfrifo darpariaeth sy'n fwy priodol.

DATGANIAD BLYNYDDOL MRP

8. Argymhellir bod awdurdod lleol yn paratoi datganiad cyn dechrau pob blwyddyn ariannol o'i bolisi ar wneud MRP mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol honno ac yn ei gyflwyno i'r cyngor llawn. Dylai'r datganiad nodi sut y cynigir cyflawni'r ddyletswydd i wneud MRP darbodus yn y flwyddyn ariannol.
9. Os cynigir amrywio telerau'r datganiad gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r cyngor bryd hynny.

YSTYR "DARPARIAETH DDARBODUS"

10. Mae rheoliad 22 o Reoliadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gyfrifo am y flwyddyn ariannol swm o MRP sy'n ddarbodus yn ei farn ef. Mae Gweinidogion Cymru yn argymhell, at ddibenion rheoliad 22, y dylai'r swm darbodus o ddarpariaeth gael ei benderfynu fel rheol, yn unol â pharagraffau 11 a 12 isod.
11. Un o egwyddorion sylfaenol system ariannol yr awdurdodau lleol yw bod rhaid ariannu'r holl wariant cyfalaf naill ai o dderbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf (neu gyfraniadau eraill) neu ddyled. Nod eang darpariaeth ddarbodus yw sicrhau bod cost y ddyled yn cael ei chodi ar gyfrif refeniw dros gyfnod sy'n gydnaws â'r hyn y mae'r gwariant cyfalaf yn rhoi manteision drosto.
12. Yn achos benthyca a gefnogir gan Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru, ystyr darpariaeth ddarbodus yw neilltuo cronfeydd dros gyfnod yn gydnaws â'r cyfnod sydd ymhlyg wrth benderfynu ar y grant hwnnw.

13. Mae Gweinidogion Cymru'n credu bod y dulliau o wneud darpariaeth ddarbodus yn cynnwys y dewisiadau a nodir ym mharagraffau 21 i 26, yn ddarostyngedig i'r amodau ym mharagraffau 27 i 35. Nid yw hyn yn diystyru neu fel arall yn atal awdurdod lleol rhag defnyddio dulliau amgen sy'n wahanol i'r rhai a amlinellir os bydd yn penderfynu bod hyn yn fwy priodol.

GOR-DALIADAU MRP

14. Gall yr awdurdodau lleol ddewis talu mwy o MRP nag sy'n ddarbodus yn eu barn hwy mewn unrhyw flwyddyn benodedig. Os gwnânt hynny dylent ddatgelu ar wahân swm yr MRP yn ystod y flwyddyn a swm cronol yr MRP a ordalwyd yn y Datganiad a gyflwynir i'r Cyngor llawn.

YSTYR CODI TÂL AR GYFRIF REFENIW

15. Ni all tâl a godir ar gyfrif refeniw ar gyfer MPR fod yn dâl negyddol.

16. Ni all tâl a godir ar gyfrif refeniw fod yn £ddim ond:

- Os oedd CFR awdurdod yn ddim neu'n negyddol ar ddiwrnod olaf y flwyddyn ariannol flaenorol; neu
- Os yw awdurdod lleol yn dewis gwrthbwysu gordaliad blwyddyn flaenorol (fel y nodir ym mharagraff 14) yn erbyn darpariaeth ddarbodus y flwyddyn bresennol. Os bydd awdurdod lleol yn dewis gwrthbwysu gordaliad blwyddyn flaenorol, dylai ddatgelu'r ffaith hon ac unrhyw ordaliad cronol sy'n weddill o MRP yn y Datganiad hwn a gyflwynir i'r cyngor llawn.

NEWID DULLIAU AR GYFER CYFRIFO MRP

17. Caiff awdurdod lleol newid y dull(iau) a ddefnyddir ganddo i gyfrifo rhan neu'r cyfan o'i MRP ar unrhyw amser.

18. Lle bo awdurdod lleol yn newid y dull(iau) a ddefnyddir ganddo i gyfrifo MRP, dylai esbonio yn ei Ddatganiad pam y bydd y newid yn caniatáu iddo wneud darpariaeth ddarbodus.

19. Dylai'r ffordd y cyfrifir MRP o dan y dull(iau) newydd fod yn seiliedig ar y CFR gweddilliol ar yr adeg y gwneir newid yn y dull (hy ni ddylai gael ei gymhwyso'n ôl-weithredol). Ni all newid y dull a defnyddir i gyfrifo MRP byth achosi gordaliad mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol, ac ni ddylai olygu bod awdurdod lleol yn codi tâl llai neu'n codi £dim am y cyfnod cyfrifyddu y gwneir y tâl amdano, neu mewn unrhyw gyfnod olynol ar y sail bod angen iddo adennill gordaliadau o MRP yn ymwneud â blynyddoedd blaenorol.

DYLED A DROGLWYDDIR

20. Lle trosglwyddir dyled rhwng awdurdodau, dylai'r awdurdodau o dan sylw gytuno ar drefniadau ar gyfer parhau i wneud MRP ac addasu eu CFRs yn unol â hynny. Fel rheol, dylai'r awdurdod sy'n ildio'r ddyled roi'r gorau i wneud MRP mewn perthynas â hi a dylai'r Awdurdod sy'n ei chymryd drosodd ddechrau gwneud MRP fel pe bai'n tynnu gwariant cyfalaf newydd a gyllidir gan ddyled.

DEWISIADAU AR GYFER DARPARIAETH DDARBODUS

Opsiwn 1: Dull Rheoleiddio

21. Mae MRP yn gyfartal i'r swm a bennir yn unol â chyn reoliadau 2003, fel pe na baent wedi cael eu dirymu gan Reoliadau 2008. At ddibenion y cyfrifiad hwnnw, dylai Addasiad A fel rheol barhau i gael y gwerth wedi'i briodoli iddo gan yr awdurdod yn y flwyddyn ariannol 2004-05. Er hynny, byddai'n rhesymol i'r awdurdodau lleol gywiro unrhyw wallau canfyddedig yn addasiad A, os byddai'r cywiriad o'u plaid.

22. Cynhwysir cyn Reoliadau 28 a 29 o Reoliadau 2003 yn Atodiad A.

Opsiwn 2: Dull CFR

23. Mae MRP yn gyfartal i 4% o CFR heb fod yn dai ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol.

Opsiwn 3: Dull Oes Ased

24. Lle mae gwariant cyfalaf ar ased yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan drefniadau benthyca neu gredyd, rhaid penderfynu ar MRP trwy gyfeirio at oes yr ased. Mae dau brif ddull o sicrhau hyn, fel y disgrifir isod. O dan y ddau amrywiad, caiff yr awdurdodau wneud darpariaeth referniw wirfoddol ychwanegol mewn unrhyw flwyddyn, ac os felly cânt wneud gostyngiad priodol yn lefelau MRP yn y blynyddoedd wedyn.

(a) Dull rhandaliadau cyfartal

MRP yw'r swm a roddir gan y fformiwla ganlynol:

$$\frac{A - B}{C}$$

Os-

A yw swm y gwariant cyfalaf mewn perthynas â'r ased a ariennir gan drefniadau benthyca neu gredyd

B yw cyfanswm y ddarpariaeth a wnaed cyn y flwyddyn ariannol bresennol mewn perthynas â'r gwariant hwnnw.

C yw nifer cynhwysol y blynyddoedd ariannol o'r flwyddyn bresennol hyd at y flwyddyn y mae oes amcangyfrifedig yr ased yn dod i ben.

(b) Dull blwydd-dal

MRP yw'r brif elfen am flwyddyn y blwydd-dal y mae ei angen i ad-dalu dros oes yr ased swm y gwariant cyfalaf a ariennir gan drefniadau benthyca neu gredyd. Dylai'r awdurdod ddefnyddio cyfradd yswiriant briodol i gyfrifo'r swm. Dylai addasiadau i'r cyfrifiad i gymryd i ystyriaeth ad-dalu trwy ddulliau eraill yn ystod y cyfnod ad-dalu (e.e. trwy gymhwysu derbyniadau cyfalaf) gael eu gwneud yn ôl yr angen.

Opsiwn 4: Dull Dibrisiant

25. Rhaid i MRP fod yn gyfartal i'r ddarpariaeth sy'n ofynnol mewn perthynas â chyfrifyddu dibrisiant mewn perthynas â'r ased yr ariannwyd gwariant arno trwy drefniadau benthyca neu gredyd. Dylai hyn gynnwys unrhyw swm ar gyfer amhariad sy'n daladwy ar y Cyfrif Incwm a Gwariant.
26. At y diben hwn dylid dilyn gweithdrefnau cyfrifyddu dibrisiant, ac eithrio yn y ffyrdd canlynol:
- Dylai MRP barhau i gael ei wneud yn flynyddol nes y bydd swm cronol y ddarpariaeth honno'n gyfartal i'r gwariant a ariannwyd yn wreiddiol gan drefniadau benthyca neu gredyd. Wedi hynny bydd MRP yn sero.
 - Wrth waredu'r ased, dylai'r tâl barhau yn unol â'r amserlen ddibrisiant fel pe na bai'r gwarediad wedi digwydd. Nid yw hyn yn effeithio ar y gallu i gymhwysu derbyniadau cyfalaf neu unrhyw ffynonellau ariannu eraill ar unrhyw adeg i ad-dalu'r cyfan neu ran o ddyled sydd heb ei thalu.
 - Lle mae canran y gwariant ar yr ased a ariennir gan drefniadau benthyca neu gredyd yn llai na 100%, dylai MRP fod yn gyfartal i'r un ganran o'r ddarpariaeth sy'n ofynnol o dan gyfrifyddu dibrisiant.

AMODAU AR GYFER DEFNYDDIO'R OPSIYNAU

27. Ni all opsiynau 1 a 2 ond gael eu defnyddio mewn perthynas â'r canlynol:
(a) gwariant cyfalaf a dynnwyd cyn 1 Ebrill 2008;
(b) gwariant cyfalaf sy'n rhan o'i wariant cyfalaf â chymorth.
28. Yn achos gwariant a dynnwyd ar 1 Ebrill 2008 neu wedi hynny nad yw'n rhan o wariant cyfalaf â chymorth yr awdurdodau, mae dulliau darbodus yn cynnwys Opsiynau 3 a 4.
29. Yn achos yr holl wariant wedi'i gyfalafu ar 1 Ebrill 2008 neu wedi hynny, Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell defnyddio Opsiwn 3, wedi'i addasu yn unol â pharagraffau 39 a 40 isod.
30. Lle mae awdurdod lleol yn defnyddio opsiynau 3 neu 4 neu unrhyw fethodoleg arall sydd ag oes ddefnyddiol asedau fel un o gydrannau'r cyfrifiad, ni ddylai fel rheol fod yn fwy nag uchafswm oes ddefnyddiol o 50 mlynedd. Gall yr awdurdodau lleol fynd dros yr uchafswm hwn mewn dwy sefyllfa bosibl;
- Lle mae awdurdod lleol wedi cael barn oddi wrth gynghorydd cymwysedig priodol y bydd ased yn cyflawni ei swyddogaeth am fwy na 50 mlynedd gall ddefnyddio'r oes a awgrymir gan y cynghorydd proffesiynol;
 - Ar gyfer les neu ased PFI, lle mae hyd y les/contract PFI yn fwy na 50 mlynedd. Yn yr achos hwn dylid defnyddio'r les/contract PFI

Amcangyfrif o oes ddefnyddiol asedau

31. Dylai'r amcangyfrif o oes y prosiect gael ei benderfynu yn y flwyddyn y mae MRP yn cychwyn a pheidio â chael ei ddiwygio wedyn.

Eiddo Buddsoddi

32. Mae'r ddyletswydd i wneud MRP yn ymestyn i eiddo buddsoddi lle mae'r caffael wedi cael ei ariannu'n rhannol neu'n gyfan gwbl trwy gynnydd mewn trefniadau benthyca neu gredyd. Ni chodir dibrisiant ar eiddo buddsoddi, Opsiwn 4: nid yw'r dull dibrisiant yn ddull addas ar gyfer cyfrifo'r MRP i'w godi mewn perthynas ag eiddo buddsoddi.

Tir rhydd-ddaliad

33. Os na ellir priodoli oes i ased, megis tir rhydd-ddaliad, dylid cymryd bod yr oes yn uchafswm o 50 mlynedd. Er hynny, yn achos tir rhydd-ddaliad yr adeiledir adeilad neu strwythur arall arno, gellir trin oes y tir fel pe bai'n gyfartal i oes y strwythur, lle y byddai hyn yn fwy na 50 mlynedd (yn ddarostyngedig i amodau paragraff 25).

Cychwyn darpariaeth.

34. Yn ddarostyngedig i baragraff 35 isod, dylai MRP gychwyn fel arfer yn y flwyddyn ariannol yn dilyn yr un y tynnwyd y gwariant ynddi.

Cychwyn MRP.

35. Wrth fenthyca i ddarparu ased, caiff yr awdurdod drin oes yr ased fel pe bai'n cychwyn yn y flwyddyn y daw'r ased yn weithredol ynddi. Caiff ohirio dechrau gwneud MRP tan y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn y daw'r ased yn weithredol ynddi. Yma, mae i "Gweithredol" yr un ystyr â'i ddiffiniad cyfrifyddu safonol. Dylid ystyried bod eiddo buddsoddi yn dod yn weithredol pan fyddant yn dechrau cynhyrchu refeniw.

Lesoedd a PFI

36. Yn achos lesoedd cyllid (neu, pan fydd yn gymwys, lesoedd lle mae ased mantolen) a contractau PFI mantolen, ystyrid bod y gofyniad MRP yn cael ei fodloni trwy dâl sy'n gyfartal i elfen y rhent/tâl sy'n mynd i addasu rhwymedigaeth y fantolen.

37. Lle y daw les (neu ran o les) neu contract PFI ar y fantolen, a lle y cyfrifwyd amdani gynt oddi ar y fantolen, ystyrid bod y gofyniad MRP wedi cael ei fodloni trwy gynnwys yn y tâl, am y flwyddyn y mae'r ailddatganiad hwn yn digwydd ynddi, swm sy'n gyfartal i'r gostwng am y flwyddyn honno ynghyd â gostwng yn ôl-weithredol y rhwymedigaeth ar y fantolen sy'n deillio o'r ailddatganiad.

Asedau Tai

38. Mae'r ddyletswydd i wneud MRP i gwmpasu trefniadau benthyca neu gredyd i ariannu gwariant cyfalaf ar asedau tai heb newid ers y penderfyniadau presennol.

Gwariant wedi'i Gyfalafu

39. Lle mae awdurdod yn tynnu gwariant ar 1 Ebrill 2008 neu wedi hynny sydd:

- (a) wedi'i gyllido drwy fenthyca neu drefniadau credyd; ac
- (b) yn cael ei drin fel gwariant cyfalaf yn rhinwedd naill ai cyfarwyddyd o dan adran 16(2)(b) o Ddeddf 2003 neu reoliad 20(1) o Reoliadau 2003.

Dylai'r awdurdod wneud MRP yn unol ag Opsiwn 3.

40. At ddibenion y fformiwla ym mharagraff 24 uchod, ym mlwyddyn gychwynol gwneud MRP dylid rhoi'r uchafswm gwerthoedd i'r newidyn "C" fel y nodir yn y tabl canlynol:

| <u>Math o wariant</u> | <u>Uchafswm gwerth "C" yn y flwyddyn gychwynnol</u> |
|--|---|
| Gwariant wedi'i gyfalafu yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan a16(2)(b) | Mae "C" yn gyfartal i'r cyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd. Ni fydd hyn yn fwy nag uchafswm o 20 mlynedd fel rheol. |
| Rheoliad 20(1)(a) Gwariant ar raglenni cyfrifiadurol | Mae "C" yn gyfartal i'r gwerth a fyddai ganddo ar gyfer caledwedd gyfrifiadurol neu hyd y drwydded feddalwedd. |
| Rheoliad 20(1)(b) Benthyciadau a grantiau tuag at wariant cyfalaf gan drydydd partïon | Mae "C" yn gyfartal i oes amcangyfrifedig yr asedau y tynnir y gwariant trydydd parti mewn perthynas â hwy |
| Rheoliad 20(1)(d) Caffael cyfalaf cyfranddaliadau neu fenthyciadau | Mae "C" yn gyfartal i 20 mlynedd |
| Rheoliad 20(1)(e) Ad-dalu grantiau a benthyciadau ar gyfer gwariant cyfalaf | Mae "C" yn gyfartal â 25 mlynedd neu gyfnod y benthyciad os yw'n hwy. |
| Rheoliad 20(1)(f) Gwariant ar waith i asedau nad ydynt ym mherchnogaeth yr awdurdod | Mae "C" yn gyfartal i oes amcangyfrifedig yr asedau |
| Rheoliad 20(1)(h) Gwariant a dynnir ar gaffael, cynhyrchu neu adeiladu asedau nad ydynt ym mherchnogaeth yr awdurdod | Mae "C" yn gyfartal i oes amcangyfrifedig yr asedau |